

Pecyn Cyhoeddus

Rhybudd o Benderfyniadau **Cyfarfod y Cabinet** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar **Ddydd Mawrth, 6 Mehefin 2023**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5.00pm Dydd Iau, 8 Mehefin 2023. Y dyddiad olaf i dderbyn cais i alw unrhyw benderfyniad i mewn yw 5.00pm Dydd Iau, 15 Mehefin 2023 drwy ei anfon at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) Dydd Gwener, 16 Mehefin 2023.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Bryan Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Catrin M S. Davies, Clive Davies, Gareth Davies, Keith Henson, Wyn Thomas ac Alun Williams.

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Euros Davies, Meirion Davies, Elizabeth Evans, Gwyn Wigley Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans, Hugh Hughes, Maldwyn Lewis, Gareth Lloyd, Ann Bowen Morgan a Caryl Roberts.

(10.00am- 12.18pm)

1 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cynghorydd Matthew Vaux am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

2 Materion Personol

- i. Estynnwyd cydymdeimlad â theulu'r Arglwydd John Morris o Aberafan, cyn-Weinidog y Cabinet a chyn-Aelod Seneddol Llafur Cymru, a fu farw'n ddiweddar.
- ii. Estynnwyd llongyfarchiadau i Glwb Ffermwyr Ifanc Tregaron ar ennill rali'r sir ac i Glwb Ffermwyr Ifanc Felinfach ar gynnal y digwyddiad llwyddiannus.
- iii. Estynnwyd llongyfarchiadau i blant, pobl ifanc ac athrawon Ceredigion ar eu llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri.
- iv. Estynnwyd llongyfarchiadau i Claire Lloyd, sy'n ddisgybl yn Ysgol Gyfun Aberaeron, ar gael ei choroni'n bencampwraig bocsiu Cymru ac ar ennill cystadlaethau'r delyn a'r piano yn Eisteddfod yr Urdd. Estynnwyd llongyfarchiadau i lanto Lloyd hefyd ar gael ei goroni'n bencampwr bocsiu Cymru.
- v. Estynnwyd llongyfarchiadau i Stevie Williams ar gystadlu yn y Giro d'Italia yn ddiweddar.
- vi. Hefyd estynnwyd llongyfarchiadau i'r Athro Fonesig Elan Closs Stephens ar gael ei phenodi'n Gadeirydd Dros Dro Bwrdd y BBC.
- vii. Estynnwyd croeso cynnes i Clive Williams i'w gyfarfod cyntaf o'r Cabinet yn dilyn ei benodi'n Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro: Ysgolion.

3 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu

- i. Datganodd y Cynghorwyr Gareth Davies a Keith Henson fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 8.
- ii. Datganodd y Cynghorydd Bryan Davies fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 19.

- 4 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny**
Cadarnhau bod cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 2 Mai 2023 yn gywir.

Materion yn codi: Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion.

- 5 Unrhyw ddeisebau a dderbyniwyd**
- Gwrthwynebiad i'r cyfyngiadau 20mya arfaethedig
 - Gwrthwynebiad i'r cyfyngiadau 20mya arfaethedig
 - Gwrthwynebiad i'r cyfyngiadau 20mya arfaethedig
 - Gwrthwynebiad i'r cyfyngiadau 20mya arfaethedig
 - Gwrthwynebiad i'r cyfyngiadau 20mya arfaethedig
 - Gwrthwynebiad i'r cyfyngiadau 20mya arfaethedig

Nodwyd bod y deisebau uchod wedi dod i law ac y byddai'n cael ei thrin yn unol â'r canllawiau yn y Protocol Deisebau.

- 6 Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**
Dim.

- 7 Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda**
Dim.

- 8 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar ynghylch Strategaeth Gorllewin Cymru ar Famolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu PENDERFYNIAD:**
- Cymeradwyo Strategaeth Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Gorllewin Cymru.
 - Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Ymgynghorwyd yn helaeth ynghylch y strategaeth ac mae'n cynnig fframwaith ar gyfer darparu'r Gwasanaethau Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar mwyaf effeithiol yn ardal Hywel Dda.

- 9 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Cyflwyno Cynllun Gweithredu yn dilyn Arolygiad Gwerthuso Perfformiad Arolygiaeth Gofal Cymru gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu PENDERFYNIAD:**
- Derbyn y Cynllun Gweithredu drafft sydd wedi'i lunio i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru, fel ymateb cymesur i'r argymhellion yn yr adroddiad.
 - Bod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach yn monitro'r Cynllun Gweithredu ar ôl chwe mis am gyfnod o flwyddyn er mwyn sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud a bod y momentwm yn cael ei gynnal hyd nes y bydd y gwaith wedi'i gwblhau.

3. Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Sicrhau bod y gwelliannau priodol yn cael eu gwneud yn unol â gofynion Arolygiaeth Gofal Cymru fel y gellir parhau i weithredu gwasanaeth cadarn a diogel.

10 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Adroddiad Diogelu Grwp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS Chwarter 3 2022-23

Nodwyd yr adroddiad.

11 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio ynghylch y Cynnig o ran y Cynllun Tai Cymunedol gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

PENDERFYNIAD:

- i. Cymeradwyo Cynnig y Cynllun Tai Cymunedol.
- ii. Nodi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Cefnogi llwybr newydd i berchentyaeth fforddiadwy ar gyfer trigolion Ceredigion sy'n gymwys.

12 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrolfol

PENDERFYNIAD:

Cymeradwyo gwneud dau Orchymyn Rheoleiddio Traffig ac y cyhoeddir Hysbysiad o Fwriad i'w Gwneud yn y wasg i'r perwyl hwnnw.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Fel bod effeithiau'r ddau Orchymyn Rheoleiddio Traffig Arbrolfol yn rhai parhaol.

13 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Mabwysiadu Ffordd Ddiddosbarth yn '100 Acre Wood', Cenarth: Mabwysiadu Ffordd sydd wedi'i Lledu

PENDERFYNIAD:

Cymeradwyo mabwysiadu'r ffordd ddiddosbarth sydd wedi'i lledu yn y safle a elwir yn '100 Acre Wood', drwy broses Adran 278 ac Adran 38 Deddf Priffyrdd 1980 a'i chynnal a'i chadw wedi hynny gan ddefnyddio arian cyhoeddus.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Er mwyn galluogi i'r ffordd gael ei chynnal a'i chadw gan ddefnyddio arian cyhoeddus.

14 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Terfynau Cyflymder 20 mya, 30 mya, 40 mya a 50 mya a Ffyrdd Digyfyngiad) (Cydgrynhoi) 2014 (Amrywiol Leoliadau yn Newid i'r Terfyn Cyflymder Cenedlaethol) (Gorchymyn Diwygio Rhif 23) 2023

PENDERFYNIAD:

- i. Nodi atebion Swyddogion i'r gwrthwynebiadau a gafwyd.
- ii. Cymeradwyo gwneud y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig angenrheidiol.
- iii. Cymeradwyo cyhoeddi Hysbysiad Gwneud dilynol yn y wasg leol i'r perwyl hwn, a gweithredu'r terfynau cyflymder newydd.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Mae'r cyfiawnhad dros newidiadau i drefniadau terfyn cyflymder ar y seiliau eang a roddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cynllun cenedlaethol hwn; diogelwch ar y ffyrdd, lleihau difrifoldeb anafiadau, ac annog Teithio Llesol a Chynaliadwy.

15 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Democrataidd ynghylch Adroddiad Monitro Blynnyddol Safonau'r Gymraeg 2022-23

PENDERFYNIAD:

- i. Cymeradwyo'r Adroddiad Monitro Blynnyddol Safonau'r Gymraeg Cyngor Sir Ceredigion 2022-23.
- ii. Cymeradwyo cyhoeddi'r adroddiad ar wefan corfforaethol y Cyngor yn unol â'r dyletswydd statudol.
- iii. Cyflwyno'r adroddiad at sylw Comisiynydd y Gymraeg.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Dyletswydd Statudol Rheoliadau Safonau'r Gymraeg, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

16 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Democrataidd ynghylch Adroddiad Cyflawniad Strategaeth Hybu'r Gymraeg Ceredigion dros gyfnod 5 mlynedd, 2018-23

PENDERFYNIAD:

Cymeradwyo'r Adroddiad, ac i:

- i. Gyflwyno at sylw Comisiynydd y Gymraeg
- ii. Gyflwyno'r adroddiad er gwybodaeth yng nghyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion
- iii. Gyhoeddi ar wefan corfforaethol y Cyngor, fel sy'n ofynnol o dan drefn Safonau'r Gymraeg.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Gofyniad Statudol o dan Rheoliadau Safonau'r Gymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011: Safon Rhif 146.

17 EITEM EITHRIEDIG

Nid yw'r adroddiad sy'n ymwneud ag eitem 18 ar yr agenda, Atodiad 1, i'w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth)

(Amrywio) (Cymru) 2007. Os bydd y Cyngor yn penderfynu ystyried yr eitem hon yn breifat, ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd, caiff y cyhoedd eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth honno, yn unol ag Adran 100B(2) o'r Ddeddf.

Gofynnwyd i'r Aelodau, wrth ymdrin â'r eitem, ystyried a ddylid gwahardd y cyhoedd a'r wasg o'r Cyfarfod.

PENDERFYNIAD:

Peidio gwahardd y cyhoedd a'r wasg o'r cyfarfod.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Ni thrafodwyd y ddogfen yn gyhoeddus.

18 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion a Diwylliant ynghylch Ysgol Ardal Newydd Dyffryn Aeron – Contract Adeiladu

PENDERFYNIAD:

1. Cymeradwyo rhoi Llythyr o Fwriad i C Wynne & Sons Ltd (sy'n masnachu fel Wynne Construction) gwerth hyd at £1.276m fel yr amlinellir yn yr adroddiad.
2. Derbyn y tendr oddi wrth C Wynne & Sons Ltd (sy'n masnachu fel Wynne Construction) ar gyfer y contract adeiladu gwerth £14,656,660 ar gyfer Ysgol Dyffryn Aeron, yn amodol ar y ffaith na fydd y contract hwn yn mynd rhagddo hyd nes y bydd Llywodraeth Cymru wedi hysbysu'n ffurfiol bod yr Achos Busnes Terfynol wedi'i gymeradwyo a bod y cyllid wedi'i gadarnhau.
3. Nodi, o dybio y bydd Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r Achos Busnes Terfynol wedi hynny, y bydd gofyn i'r Cyngor neilltuo arian cyfatebol ychwanegol o oddeutu £1.1m yn niweddariad nesaf y Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Er mwyn caniatáu i'r gwaith o adeiladu ysgol ardal newydd yn Nyffryn Aeron ddechrau ar y safle cyn gynted ag y bo modd.

19 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion a Diwylliant ynghylch Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol ar Gyrrff Llywodraethol

PENDERFYNIAD:

Cadarnhau enwebu'r sawl a enwir yn yr adroddiad yn gynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol ar Gyrrff Llywodraethol yr Ysgolion perthnasol.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Enwebu cynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol ar Gyrrff Llywodraethol.

20 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar ynghylch Agoriad Swyddogol y Ganolfan Lles, Llanbedr Pont Steffan

PENDERFYNIAD:

Enwebu person priodol i agor y Ganolfan Lles yn swyddogol.

Y rheswm dros y penderfyniad:

Cytuno i wahodd person priodol i agor y Ganolfan Lles yn swyddogol.

- 21 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ynghylch Dyletswydd Trais Difrifol - Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu, a Llysoedd 2022**
Nododd Cabinet y ddyletswydd newydd ar y Cyngor a'r trefniadau ar gyfer gweithredu mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill.
- 22 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brysgan y Cabinet**
Dim.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar
4 Gorffennaf 2023**

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____